5/11/2022

Barddoniaeth

1. **Y Gadair**: 'Gwreiddiau' - Cerdd gaeth neu rydd, dim mwy na 100 llinell. Gwobrau: Cadair fechan a £40; £30; £20

***2*. Englyn -** 'Cymuned' *Gwobrau: £10; £8; £5*

***3*. Englyn Ysgafn -** 'Y Car' *Gwobrau: £10; £8; £5*

***4*. Cerdd Rydd -** 'Cofio'. Hyd at 25 llinell. *Gwobrau: £10; £8; £5*

***5*. Emyn Heddwch (Geiriau'n Unig)** *Gwobrau: £10; £8; £5*

***6*. Llinell goll**: Cwblhau'r Limrig. *Gwobrau: £5; £3; £2*

Mae Cybi a Seiriol mewn cania
Ar silffoedd pob siop y ffordd yma
Bob ochr i Dwynwen,
A'r cwestiwn mawr rŵan

_ _

7*. *Limrig yn cynnwys y llinell:

Cyn hir fe fydd pawb mewn car trydan *Gwobrau: £5; £3; £2*

Rhyddiaith

***1*. Stori Fer neu Ysgrif**: 'Dathlu' . *Gwobrau: Plât a £40; £30; £20*

2. Ffurfio brawddeg o'r enw: 'Maes Y Coed' Gwobrau: £5; £3;£2.

3. TLWS YR IFANC i rai dan 21 oed. Darn o lenyddiaeth creadigol hyd at 2,000 o eiriau. Gwobrau: Tlws yr Ifanc a £30; £20; £10

***4*. Blwyddyn 10 ac 11**: Darn o ryddiaith Creadigol *Gwobrau: £8; £6; £4*

***5*. Blwyddyn 7, 8 a 9**: Darn o ryddiaith creadigol. *Gwobrau: £7; £5; £3*

***6*. Cystadleuaeth i oedolion sy'n dysgu Cymraeg:** 'Dyddiadur tri diwrnod ' . (Y dysgwyr i nodi eu lefel wrth ymgeisio): *Gwobrau: £10; £8; £5*

****

Cynnyrch Llenyddol i fod yn llaw'r ysgrifennydd, **Helen Evans Taleilian, Talwrn, LL77 7TF erbyn Hydref 25ain, 2022 g**yda enw, cyfeiriad a rhif ffôn yr ymgeisydd mewn amlen dan sêl. Derbynnir gwaith hefyd drwy yrru e-bost at **taleilian@hotmail.co.uk**

Dychwelir y cyfansoddiadau os derbynnir cais ysgrifenedig gydag amlen stampiedig o fewn pythefnos ar ôl yr Eisteddfod.

Cymraeg yw iaith holl gystadlaethau'r Eisteddfod yn ysgrifenedig (ac ar lwyfan heblaw am y Brif Unawd).

Ni ystyrir unrhyw waith a wobrwywyd mewn unrhyw eisteddfod o'r blaen. Ni chaniateir i'r un darn o waith gael ei ystyried am fwy nag un gystadleuaeth a rhaid i'r cynnyrch fod yn waith dilys yr ymgeisydd.

Ni chaniateir unrhyw wrthdystiad cyhoeddus a bydd barn y beirniaid yn derfynol ym mhob adran.

Ble'n briodol bydd hawl gan y pwyllgor i atal neu aildrefnu gwobr.